




Older People's Commissioner
for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

GOFAL GYDAG URDDAS:

BLWYDDYN YN DDIWEDDARACH



Profiadau pobl hŷn
mewn ysbytai yng
Nghymru

Cynnwys

1. Cyflwyniad a datganiad ar gynnydd
2. Trosolwg o'r camau sy'n cael eu cymryd
3. Gwella'r sail tystiolaeth, monitro ac adrodd yn y dyfodol

Atodiad

- i. Tystiolaeth ategol – Llywodraeth Cymru
- ii. Tystiolaeth ategol – Byrddau Iechyd Lleol

1. Cyflwyniad

Cefndir

Mae gwaith Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn cael ei yrru gan y materion sy'n cael eu codi gan bobl hŷn a chan y rhai sy'n gofalu amdanynt ac yn eu cynorthwyo. Er bod llawer o bobl yn cael lefel dda o ofal, un o'r materion sy'n cael eu codi dro ar ôl tro yw'r driniaeth ddiurddas, ddiraddiol mae rhai pobl yn ei chael yn yr ysbyty.

Gall arhosiad yn yr ysbyty fod yn brofiad anodd ynddo'i hun, ond gall cael eich trin â diffyg urddas a pharch fod yn achos trallod gwirioneddol. Gall danseilio effeithiolrwydd triniaeth glinigol, a gall effeithio ar adferiad a hyd arhosiad y claf yn yr ysbyty.

O ganlyniad i'r materion a dynnwyd i'w sylw, yn 2010 cyhoeddodd y Comisiynydd lansiad yr Adolygiad *Gofal gydag Urddas? Rhwng Medi a Thachwedd 2010* bu'r Comisiwn, ynghyd â phanel o arbenigwyr yn y maes lechyd a Gofal Cymdeithasol (o dan gadeiryddiaeth y Fonesig Deidre Hine, cyn Brif Swyddog Meddygol Cymru) yn ymweld ag un ar bymtheg o ysbytai a buont yn sgwrsio'n uniongyrchol â phobl hŷn, cleifion, perthnasau a staff.

Ym mis Mawrth 2011, cyhoeddodd y Comisiwn ei ganfyddiadau yn *Gofal gydag Urddas?* Ers ei gyhoeddi mae llawer o bobl hŷn wedi cyfeirio at yr adroddiad wrth fynegi eu pryderon wrthym ar faterion sy'n gysylltiedig â gofal iechyd.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys deuddeg o argymhellion sydd â'r nod o wella gofal yn yr ysbyty i bobl hŷn ledled Cymru. Roedd disgwyl i'r Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaeth Felindre, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru ymateb i'r argymhellion a chyhoeddi cynlluniau gweithredu manwl gyda'r nod o wella urddas mewn gofal.

Cafodd y cynlluniau gweithredu hyn eu cymeradwyo a'u cyhoeddi'n llawn ar wefan y Comisiwn ym mis Hydref 2011

www.olderpeoplewales.com

Mae'r Comisiynydd yn disgwyl y bydd y cynlluniau hyn yn arwain at welliant sylweddol ar sail tystiolaeth yn y gofal a ddarperir a hefyd ym mhrofiadau cleifion yn y deuddeg maes a restrir yn yr argymhellion.

Dilyniant

Yn ystod mis Mawrth 2012, cynhaliodd y Comisiwn ymweliadau dilynol i asesu cynnydd yn yr holl gyrrff yr oedd angen iddynt wella.

Yr oeddem hefyd wedi gofyn i sefydliadau eraill sydd â chyfrifoldeb penodol o ran monitro a darparu iechyd a gofal cymdeithasol i rannu eu tystiolaeth a'u barn am yr hyn a oedd yn digwydd ar lefel ward. Cafwyd cyfraniadau gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, y Cynghorau Iechyd Cymuned, Swyddfa Archwilio Cymru, yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd, y Coleg Brenhinol y Nyrsys, a Chymdeithas Feddygol Prydain, a hefyd a trydydd sector, a grwpiau pobl hŷn.

Flwyddyn ar ôl cwblhau'r cynlluniau gweithredu, mae'r adroddiad yn amlinellu asesiad y Comisiynydd o'r cynnydd a wnaethpwyd yn ystod y deuddeng mis diwethaf, ac yn edrych sut yr eir ati i gynnal adolygiad pellach.

Pa wahaniaeth mae *Gofal gydag Urddas?* yn ei wneud yng Nghymru?

Wrth ymgymryd â'r asesiad deuddeng mis hwn roedd y Comisiynydd yn canolbwyntio ar dri chwestiwn:

- 1) A yw urddas a pharch yn awr yn cael eu cymryd o ddifrif?
- 2) A oes tystiolaeth bod cysylltiad clir rhwng y gwaith sy'n cael ei wneud a'r deuddeg argymhelliad yn yr adroddiad?
- 3) A oes tystiolaeth bendant bod profiad pobl hŷn mewn ysbytai wedi gwella?

Mae'r Comisiynydd yn fodlon bod urddas a pharch yn awr yn cael y flaenoriaeth y dylai ei gael. Mae urddas a pharch yn awr yn flaenoriaeth Haen Un i'r GIG. Mae pob Bwrdd Iechyd a'r Ymddiriedolaeth yng Nghymru wedi dweud wrth y Comisiynydd bod yr adroddiad wedi arwain

at roi sylw o'r newydd i'r mater, ei fod wedi eu sbarduno i weithredu, ac wedi gwneud iddynt wynebu realiti o ran y gofal a ddarperir ac sy'n cael ei brofi gan gleifion.

Mae tystiolaeth bod Byrddau Iechyd, yr Ymddiriedolaeth a Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â gweithgarwch sylweddol, fel yr amlinellir yn yr adroddiadau cynnydd a gyflwynwyd i'r Comisiynydd. Mae'r rhain ar gael yn eu cyfanrwydd ar ein gwefan a cheir rhagor o wybodaeth am gamau penodol sy'n cael eu cymryd gan y GIG yng Nghymru a Llywodraeth Cymru yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn.

Mae rhai Byrddau Iechyd yn dangos mwy o gynnydd nag eraill, gyda phob un yn dweud bod gwaith wedi dechrau ar y deuddeg argymhelliad. Ni ddywedodd dim un o'r cyrff nad oeddent wedi dechrau ar unrhyw agwedd ar y gwaith a amlinellwyd yn y cynlluniau gweithredu cyhoeddedig a oedd wedi'u cymeradwyo gan y Comisiynydd.

Fodd bynnag, nid oes modd barnu eto i ba raddau y mae gwelliant pendant wedi'i gyflawni ym mhrofiad cleifion mewn ysbytai ar lefel ward. Gwyddom drwy brofiad pobl sy'n cysylltu â'r Comisiwn, a thrwy ymatebion rhanddeiliaid fod arferion annerbyniol yn digwydd ar lefel sylweddol o hyd ar wardiau ysbytai.

Gwelliant ym mhrofiadau cleifion fydd y prawf mawr a fydd yn dangos a yw Byrddau Iechyd a'r Ymddiriedolaeth wedi sicrhau bod urddas a pharch yn elfen ganolog o ofal cleifion.

Disgwyliadau'r Dyfodol

Er bod y cynnydd a wnaethpwyd hyd yma'n galonogol, mae'r Comisiwn o'r farn – ac mae Llywodraeth Cymru, y Byrddau Iechyd a'r Ymddiriedolaeth yn cytuno – bod llawer o waith i'w wneud eto.

O ganlyniad, mae'r Comisiynydd wedi cytuno â Phrif Weithredwr y GIG yng Nghymru, ar ran Llywodraeth Cymru, y bydd asesiad terfynol ar gynnydd yn cael ei gynnal ym mis Mawrth 2014 ac y bydd hwn yn seiliedig ar gadernid y dystiolaeth o welliant mewn gofal a phrofiad cleifion. Er mwyn cynnal y momentwm cytunwyd hefyd y bydd Prif Weithredwr y GIG yng Nghymru yn paratoi, ar ran Llywodraeth Cymru, y

Byrddau Iechyd a'r Ymddiriedolaeth, adroddiad cynnydd pellach ym mis Mawrth 2013.

Yn ogystal â'r camau sy'n cael eu cymryd yn awr ledled Cymru, rhaid i Brif Weithredwyr y Byrddau Iechyd a'r Ymddiriedolaeth sicrhau eu bod yn bwrw ymlaen, yn ystod y deunaw mis nesaf, i gydymffurfio'n llawn â'r cynlluniau gweithredu y cytunwyd arnynt. Hefyd, erbyn mis Mawrth 2014 rhaid iddynt allu dangos i'r Comisiynydd bod gwelliant sylweddol a chyson wedi bod o ran profiad cleifion o urddas a pharch yn yr ysbyty.

Wrth wneud ei hasesiad terfynol o'r cynnydd a wnaethpwyd bydd y Comisiynydd yn rhoi ystyriaeth arbennig i'r canlynol:

- Barn a phrofiadau cleifion, pobl hŷn a'r rhai sy'n gofalu amdanynt ac yn eu cynorthwyo, gan gynnwys staff rheng flaen
- Tystiolaeth sylweddol a chlir o welliant mewn gofal i gleifion ar lefel ward
- Tystiolaeth o atebolrwydd clir i sicrhau urddas a pharch, gyda'r atebolrwydd hwn wedi'i ymgorffori ym mherfformiad a threfniadau llywodraeth cyrff y GIG a Llywodraeth Cymru

Yn y GIG yng Nghymru mae gennym lawer o staff rheng flaen ardderchog sydd wedi ymroi i ddarparu'r gofal gorau posibl i'w cleifion.

Mae ein Hadolygiad, fodd bynnag, wedi amlygu arferion, diwylliannau ac agweddau na ddylai, ac na fydd, yn cael eu goddef. Byddwn yn parhau i weithio â'r GIG yng Nghymru a Llywodraeth Cymru i adeiladu ar y cynnydd a wnaethpwyd hyd yma ac i sicrhau bod y gwelliant hwnnw'n cael ei gynnal, nid i rai'n unig ond i'r bobl hŷn i gyd.

Bydd y Comisiynydd yn cyhoeddi adroddiad gwerthuso cynnydd pellach ym mis Ebrill 2013 ac asesiad terfynol ym mis Hydref 2014, ddwy flynedd ar ôl cytuno ar gynlluniau gweithredu terfynol y Byrddau Iechyd, yr Ymddiriedolaeth a Llywodraeth Cymru.

2. Trosolwg o'r camau

Mae *Gofal gydag Urddas?* wedi rhoi hwb ychwanegol i'r galw am newid ac mae ei effaith wedi bod yn amlwg ledled Cymru. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Mae Llywodraeth Cymru wedi gofalu bod gweithredu argymhellion *Gofal gydag Urddas?* yn brif flaenoriaeth i'r GIG yng Nghymru.
- Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi cyflwyno hapwiriadau Urddas a Gofal Hanfodol dirybudd ar wardiau cyffredinol ledled Cymru, gan ddefnyddio themâu *Gofal gydag Urddas?* i ddylanwadu ar y gyfundrefn arolygu.
- Mae Coleg Brenhinol y Nyrsys yng Nghymru wedi lansio Ymgyrch "Amser i Ofalu" sy'n enwi *Gofal gydag Urddas?* fel un o'i brif ddylanwadau.
- Mae urddas mewn gofal yn awr yn eitem sydd ar frig yr agenda yn y cyfarfodydd misol rhwng prif swyddogion y Byrddau Iechyd a'r Prif Swyddog Nyrsio.
- Mae Cynghorau Iechyd Cymuned ledled Cymru wedi newid eu ffurflenni monitro i roi pwyslais ar farn cleifion a materion urddas, gan ddefnyddio themâu *Gofal gydag Urddas?*
- Wedi ei ysbrydoli gan *Gofal gydag Urddas?* mae Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn gofyn i ddefnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd dros 50 oed gwblhau holiadur, i ganfod beth sydd bwysicaf iddynt wrth gael gwasanaethau gofal iechyd.

Ceir enghreifftiau pellach gan y GIG yng Nghymru yn yr Atodiad.

Mae Cyfarwyddwyr Nyrsio ledled Cymru wedi dangos brwdfrydedd ac ymrwymiad i gyflawni cynlluniau gweithredu eu Bwrdd Iechyd, ac mae'n galonogol i weld staff rheng flaen yn dangos arloesedd wrth sicrhau urddas a pharch ar eu wardiau. Mae aelodau staff ar bob lefel yn arwain drwy esiampl ac mae'n bwysig bod eu gwaith yn cael ei gydnabod a'i gefnogi. Mae'r arolygiadau dirybudd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi gweld tystiolaeth bod staff ar y cyfan yn garedig a gofalgar

tuag at gleifion a bod toiledau a baddonau un rhyw ar gael ar y rhan fwyaf o wardiau.

Mae tystiolaeth galonogol sy'n dangos bod urddas a pharch yn cael ei ymgorffori mewn amcanion personol ar lefel y swyddogion uchaf a'r Bwrdd a bod urddas yn cael ei ymgorffori'n gynyddol mewn cynefino, amcanion a gwerthoedd staff. Er enghraifft, mae un Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno proses lle mae unrhyw achos lle nad yw claf wedi cael ei drin ag urddas a pharch yn arwain at gyfarfod wyneb yn wyneb â Chyfarwyddwr Nyrsio'r aelod staff dan sylw. Nid yw'r drafodaeth hon yn cael ei gweld fel cyfarfod disgyblu, ond fel cyfle'n hytrach i ganfod beth aeth o'i le a sut y gellir osgoi ei ailadrodd yn y dyfodol.

Mae llawer o weithwyr rheng flaen yn mynd o'u ffordd i bwysu am newid ar eu wardiau, gan arwain drwy esiampl gyda chynlluniau arloesol sy'n gwyrddroi'r syniad bod trin cleifion fel y dylent gael eu trin yn rhy anodd neu'n cymryd gormod o amser.

Mae heriau'n parhau

Fodd bynnag, mae angen sicrhau nad yw'r dulliau arloesol a llwyddiannus hyn i wella urddas yn aros fel prosiectau peilot. Rhaid i arferion gorau ddatblygu i fod yn arferion safonol, a bydd angen arweinyddiaeth gref ar bob lefel gan ddechrau â'r Cadeiryddion a'r Prif Weithredwyr.

Mae pob corff a adolygwyd yn cydnabod bod y cynnydd i wella gwybodaeth am ddementia ymhlith staff wedi bod yn araf. Mae'r rhan fwyaf o achosion o ofal diurddas yn deillio o ddiffyg sylfaenol o empathi, a methiant i drin claf fel bod dynol. Mae hyn yn risg arbennig lle mae problemau gwybyddol yn effeithio ar y gallu i gyfathrebu, neu'n arwain at ymddygiad heriol gan gleifion sy'n ddryslyd neu ofnus o ganlyniad i arhosiad yn yr ysbyty.

Dywedwyd fod gwella trefniadau rheoli ymataliaeth hefyd wedi bod yn her. Mae'r Comisiwn yn bendant y dylid mabwysiadu ymagwedd dim goddefgarwch tuag at gamreoli ymataliaeth, a byddwn yn disgwyl gweld gwelliannau sylweddol yn y maes hwn yn ystod y deuddeng mis nesaf. Ni ddylai cleifion deimlo eu bod yn cael eu trin fel plant na chael eu

bychanu gan ddefnydd diangen ac amhriodol o bediau ymataliaeth, na chan ymatebion annigonol i'w hanghenion sy'n arwain at anymataliaeth y gellid ei osgoi.

Mae'r cynnydd mewn cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion, gwella amgylchedd wardiau, a diogelu gwybodaeth bersonol hefyd wedi bod yn araf ar y cyfan.

Yn dilyn *Gofal gydag Urddas?* mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi ymrwymo i gynnal Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol ledled Cymru. Mae naw o'r arolygiadau hyn wedi'u cynnal hyd yma, a dywedir fod themâu, a heriau cyffredin, wedi dod i'r amlwg:

- Nid yw cleifion yn cael eu hannog nac yn cael cymorth bob amser i ddefnyddio'r dull o'u dewis i fynd i'r toiled.
- Ar ôl sylweddoli bod claf mewn poen, nid oes asesiad poen yn cael ei gynnal ar unwaith ac nid oes cynllun gweithredu'n cael ei roi ar waith a'i adolygu'n rheolaidd.
- Nid yw cleifion a'u perthnasau'n cael cyfrannu'n llawn nac yn cael eu hysbysu o'r broses sy'n cynllunio ar gyfer eu rhyddhau.
- Nid yw ffurflenni 'Na cheisier Dadebru' (DNAR) bob amser yn cael eu llenwi'n llawn nac yn gyfoes.
- Nid oes mesurau ar waith bob amser i hysbysu eraill o'r gofal a'r driniaeth sy'n digwydd y tu ôl i lenni caeedig (megis defnyddio pegiau urddas).
- Nid yw cleifion â llai o symudedd bob amser yn cael eu rhoi mewn ystum priodol cyn amser bwyd i sicrhau eu bod yn gyfforddus wrth fwyta'u bwyd.
- Nid yw cynlluniau gofal bob amser yn cael eu haddasu i ystyried anghenion penodol y claf.
- Nid yw cynlluniau gofal ac asesiadau bob amser yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

- Nid yw siartiau bwyd a hylif bob amser yn cael eu diweddarau'n rheolaidd.
- Nid yw'r gofal a'r driniaeth a roddir i gleifion bob amser yn cael eu dogfennu yn nodiadau'r claf.
- Yn aml gwelir diffyg gweithgarwch a symbyliad ar gyfer cleifion drwy gydol eu harhosiad yn yr ysbyty.
- Pan fyddai'n briodol, nid yw perthnasau bob amser yn cael eu hysbysu'n llawn nac yn cael cymryd rhan mewn trafodaethau ar gyflwr claf.
- Mae meddyginiaethau weithiau'n cael eu gadael ar y cwpwrdd wrth erchwyn gwely cleifion.

Mae adroddiadau annibynnol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru'n cael eu cymryd o ddifrif fel rhan o asesiad y Comisiynydd o gynnydd.

Mae Tîm Ymholiadau a Chymorth y Comisiwn yn delio ag oddeutu wyth gant o ymholiadau gan bobl hŷn bob blwyddyn. O'r rhain, yn y deuddeng mis ers cyhoeddi *Gofal gydag Urddas?*, roedd dros ddau gant yn ymwneud ag iechyd a thriniaeth yn yr ysbyty. Roedd llawer o'r ymholiadau hyn yn mynegi pryderon tebyg i'r rhai sy'n cael sylw yn *Gofal gydag Urddas?*, gan gynnwys methiannau mewn safonau gofal, cyfathrebu gwael, a threfniadau annigonol ar gyfer rhyddhau o'r ysbyty.

Roedd ein cynhadledd Urddas mewn Gofal a gynhaliwyd ar 1 Hydref 2012 hefyd yn dangos bod cynnydd sylweddol iawn i'w wneud o hyd.

Mae adroddiadau gan y GIG a Llywodraeth Cymru yn dangos bod urddas mewn gofal yn cael ei drin yn fwy difrifol yn awr nag erioed. Mae'r Comisiynydd yn fodlon bod gan yr holl gyrff a adolygwyd waith pwysig yn yr arfaeth yn erbyn y cynlluniau gweithredu y cytunwyd ganddynt.

Bydd y Comisiynydd yn awr yn rhoi pwyslais ar gael tystiolaeth glir gan y GIG a Llywodraeth Cymru bod y camau hyn yn arwain at welliannau sylweddol a chynaliadwy mewn gofal i gleifion a phrofiad cleifion ar lefel ward.

3. Gwella'r sail tystiolaeth, monitro ac adrodd yn y dyfodol

Roedd ein gwaith monitro yn y deuddeng mis cyntaf yn gyfuniad o hunan adrodd gan y GIG drwy Lywodraeth Cymru, ac adborth gan gleifion, a nifer o asiantaethau partner.

Ar hyn o bryd mae mecanwaith adrodd Coch Melyn Gwyrdd (CMG) yn seiliedig ar hunan adrodd gan y GIG yn erbyn eu cynlluniau gweithredu'n cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru. Mae'r sgoriau yn y mecanwaith adrodd hwn fel a ganlyn:

Coch = Gwaith heb ddechrau

Melyn = Ar waith

Gwyrdd = Wedi'i gwblhau

Mae'r ddogfen hon ar gael yn ei chyfanrwydd ar ein gwefan.

Ar hyn o bryd nid oes dim un o'r cyrff yn datgan sgôr coch, sy'n dangos bod y gwaith roeddent wedi ymrwymo iddo yn eu cynlluniau gweithredu wedi dechrau o leiaf ar bob un o'r argymhellion. Mae rhai Byrddau Iechyd yn adrodd mwy o gynnydd nag eraill, gyda rhai'n rhoi sgôr melyn yn bennaf ar draws yr argymhellion, sy'n dangos bod y gwaith wedi dechrau ond heb ei gwblhau.

Mae mwy o fanylion ar y gwaith sy'n cael ei wneud gan y Byrddau Iechyd a'r Ymddiriedolaeth i'w gweld yn yr Atodiad.

Er bod y Comisiynydd yn derbyn bod yr holl gynlluniau gweithredu'n dangos bwriad i newid, nid yw'n ddigon i dybio bod cynnydd yn eu herbyn yn arwain at welliant mewn gofal i gleifion a phrofiad cleifion.

Er mwyn i'r Comisiynydd gael ei sicrhau bod yr Adolygiad *Gofal Gydag Urddas?* a'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd wedi arwain at newid gweladwy a pharhaol, i ansawdd gofal i gleifion a phrofiad cleifion mae angen yn awr i Lywodraeth Cymru a'r GIG newid pwyslais i fonitro canlyniadau'r camau a gymerwyd.

Er bod nifer o gynlluniau ar waith ar hyn o bryd neu yn yr arfaeth, mae'r mecanweithiau adrodd sydd ar gael yn awr yn gyfyngedig. Bydd y Comisiwn yn awr yn gweithio â'r GIG a Llywodraeth Cymru i ddatblygu trefniadau monitro ac adrodd gwell sy'n dangos gwelliant gweladwy a chynaliadwy ym mhrofiad cleifion mewn ysbytai.

Bydd hyn yn cynnwys y canlynol:

- 1) Cyhoeddi data bodlonrwydd cleifion yn rheolaidd sy'n cyfeirio'n benodol at agweddau allweddol ar adolygiad *Gofal gydag Urddas?*
- 2) Tystiolaeth gan staff y GIG eu bod yn meddu ar yr wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i ddarparu gofal effeithiol i bobl hŷn â dementia neu sydd angen cymorth ymataliaeth.
- 3) Adborth gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, ac o archwiliadau Cynghorau Iechyd Cymuned – a ddatblygwyd ac a gomisiynwyd gan y Byrddau Iechyd eu hunain.
- 4) Adroddiad blynyddol i'r Comisiynydd gyda chynllun gweithredu cysylltiedig sy'n adolygu ansawdd gofal a phrofiad cleifion yn barhaus, ac sy'n amlygu unrhyw gamau pellach sydd angen eu cymryd. Disgwylir gwelliant parhaus a fydd yn cael ei yrru gan lais y cleifion.
- 5) Sicrwydd wedi'i lofnodi gan Gadeiryddion Byrddau Iechyd, yr Ymddiriedolaeth a Phrif Weithredwr y GIG o ran y canlyniadau y bwriedir i'r deuddeg argymhelliad eu cyflawni.

Yn ychwanegol at yr uchod, byddwn yn parhau i ofyn am dystiolaeth gan bobl hŷn, eu perthnasau a'r rhai sy'n gofalu amdanynt ac yn eu cynorthwyo. Bydd y Comisiwn hefyd yn cynnal adolygiadau dilynol ar lefel Bwrdd Iechyd, ysbyty neu ward yn gysylltiedig ag argymhellion penodol pe baem yn teimlo bod eu hangen.

Yn y diwedd, bydd y Byrddau Iechyd a Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am roi tystiolaeth i'r Comisiynydd, ac yn bwysicach i bobl hŷn, sy'n dangos bod y gwaith yn ystod y ddwy flynedd diwethaf wedi arwain at welliant sylweddol a chynaliadwy o ran urddas a pharch.

ATODIAD

i. Tystiolaeth Ategol – Llywodraeth Cymru

Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn parhau i gwrdd â Llywodraeth Cymru i sicrhau ei bod yn parhau i gyflawni ei hymrwymiad i wneud Urddas yn brif flaenoriaeth i'r GIG. Mae Llywodraeth Cymru yn awr yn monitro cynnydd yr holl Fyrddau Iechyd a'r Ymddiriedolaeth yn erbyn pob un o ddeuddeg argymhelliad *Gofal gydag Urddas?*, yn ogystal ag adrodd i ni yn erbyn y pum argymhelliad yr oedd yn ofynnol iddi ymateb iddynt.

Mae'r ymateb i'w weld yn ei gyfanrwydd ar ein gwefan.

Safon Urddas

Mewn ymateb i *Gofal gydag Urddas?* mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi mwy o flaenoriaeth i urddas a pharch o fewn y GIG yn ei gyfanrwydd. Mae Safon 10 'Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well' yn dweud bod:

“Cyrff a gwasanaethau yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion a dewisiadau corfforol, seicolegol, cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac ysbrydol unigolion ac yn sicrhau bod eu hawl i urddas a pharch yn cael ei diogelu a'i bodloni.”

Mae canllaw clir wedi'i gyhoeddi i ategu'r safon hwn sy'n pwysleisio pwysigrwydd parch, preifatrwydd, a llais, dewis a rheolaeth i gleifion, yn ogystal â'r 'pethau bach' fel amgylchedd glân a diogel mewn ysbytai.

Mae'r canllaw yn ei dro'n sail i arolygiadau gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, gan gynnwys eu 'hapwiriadau urddas' a gyflwynwyd yn dilyn *Gofal gydag Urddas?*

Meysydd i'w gwella

Rydym yn croesawu'r egwyddorion sydd wrth wraidd y safon, ac mae'r canllaw'n cyfleu neges glir i aelodau staff am yr hyn a ddisgwylir ganddynt. Fodd bynnag, rydym wedi dweud eisoes ein bod yn disgwyl gweld tystiolaeth fwy pendant yn adroddiadau monitro a chynnydd Llywodraeth Cymru o ran y safon hwn.

Gweithredu ar Argymhellion

Roedd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ymateb i bump o argymhellion *Gofal gydag Urddas?* sy'n ymdrin â gofal dementia, lefelau staffio, profiad cleifion, rhannu arferion da, a sgiliau staff. Cyflwynodd adroddiad ar gynnydd i'r Comisiwn ym mis Medi 2012.

Dementia

Mae Argymhelliad 2 yn *Gofal gydag Urddas?* yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau lechyd wella gwybodaeth am anghenion pobl â dementia.

Rydym yn croesawu cyhoeddi Gweledigaeth Cymru ar Ddementia Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2011 a bod dementia wedi cael ei gydnabod, ochr yn ochr ag urddas a pharch, fel blaenoriaeth Haen Un i Lywodraeth Cymru, gydag ymrwymiad penodol ynghylch dementia mewn ysbytai.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gorchymyn cynnal Archwiliad Dementia Cenedlaethol a gafodd ei gwblhau fis Rhagfyr 2011. Arweiniodd yr adroddiad hwn at adolygu cynlluniau gweithredu'r Byrddau lechyd ar ddementia, ac ymyriadau wedi hynny gan yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal lechyd (NLIAH) i'w gwella.

Mae'r Comisiwn o'r farn bod Llywodraeth Cymru'n cymryd dementia o ddifrif. Fodd bynnag, dywed Byrddau lechyd bod rhai elfennau o'u cynlluniau gweithredu sy'n ymwneud ag Argymhelliad 2 yn parhau heb eu rhoi ar waith (gweler isod).

Fel rhan o drefniadau adrodd a monitro yn y dyfodol bydd y Comisiwn am weld mwy o fanylion ar sut y mae'r gwaith hwn yn cael ei weithredu yn y tymor hir, pa fesurau sydd ar waith i wirio yn erbyn cyflawniadau, a sut y bydd profiadau gwirioneddol pobl hŷn yn sail i newid trywydd yn y dyfodol.

Lefelau staffio

Roedd Argymhelliad 7 yn ymdrin â'r angen am lefelau staffio digonol i ddiwallu anghenion cleifion hŷn. Mae gan Lywodraeth Cymru ddylanwad

dros lefelau staffio drwy ei ymwneud ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, a thrwy gyflwyno'r pecyn rhestri dyletswydd electronig ledled Cymru.

Fodd bynnag, dywed rhai Byrddau Iechyd nad ydynt eto wedi cyrraedd y pwynt lle maent yn barod i weithredu'r pecyn, gyda'r gost yn cael ei rhoi fel rheswm gan rai. Mae'n amlwg na allwn ddweud yn hyderus eto a fydd y pecyn hwn ar waith ledled Cymru yn y dyfodol agos.

Roedd rhan o Argymhelliad 7 yn ei gwneud yn ofynnol i sicrhau bod gwaith Llywodraeth Cymru yn 'ystyried lefelau presennol o angen a lefelau o angen a ragwelir mewn perthynas â'r gofal a roddir i bobl hŷn'. Er y bydd y Pecyn Cymorth Nyrsio Diogelach sy'n cael ei dreialu'n galluogi Byrddau i gynllunio yn ei hardaloedd, nid yw ymateb Llywodraeth Cymru yn egluro sut y mae'n dadansoddi tueddiadau demograffig ac yn cynllunio cyllidebau'r dyfodol i ddiwallu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio yn y tymor hir. Rydym yn disgwyl gweld y materion hyn yn cael eu hystyried mewn adroddiadau yn erbyn yr argymhelliad hwn yn y dyfodol.

Profiad Cleifion

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud urddas a pharch yn flaenoriaeth Haen Un, ac o ganlyniad mae pob cyfarfod ansawdd a darpariaeth yn awr yn cynnwys trafodaeth ar arloesi a rhannu arferion da. Rhoddir sylw i arferion da hefyd yn y Safonau Gofal Iechyd 'Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well'.

Mae'r Comisiwn wedi gweld drosto'i hun bod digonedd o arferion da mewn ysbytai ledled Cymru. Rydym yn derbyn bod angen rhoi syniadau newydd ar brawf, ond mae rhai cynlluniau ar waith heddiw sydd yn amlwg mor effeithiol a syml i'w gweithredu fel y mae'n anodd deall pam nad ydynt yn cael eu gweithredu'n gyffredinol. Mae enghreifftiau'n cynnwys y Cynllun Glöyn Byw, yr ymgyrch codi ymwybyddiaeth 'EARWIG', gwirfoddolwyr Red Robin a'r cynlluniau tocyn adref.

Rhaid i arferion da fod yn arferion safonol. Mae gan Lywodraeth Cymru rôl bendant i sicrhau bod syniadau arloesol ac effeithiol sy'n cyflawni canlyniadau clir yn cael eu gweithredu'n gyflym, ac nad ydynt yn cael eu cadw mor hir yn y cam peilot fel na fydd pobl hŷn yn elwa arnynt. Nid

oes angen llawer o adnoddau i weithredu llawer o'r syniadau hyn, a byddai angen llai byth pan fyddant yn rhan o arferion gwaith o ddydd i ddydd.

Sgiliau Staff

Mae ymateb Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd parhad datblygiad proffesiynol staff i sicrhau urddas a pharch, ac mae'n ymrwymo i gynyddu nifer y staff sy'n cael arfarniadau prydlon. Yn y dyfodol byddwn yn gweithio â Llywodraeth Cymru a GIG Cymru i ganfod ffyrdd o gipio tystiolaeth glir o arfarniadau staff effeithiol sy'n galluogi staff i ddarparu gofal urddasol yn well i bobl hŷn. Mae ein cynigion ar gyfer monitro ac adrodd parhaus, fel yr amlinellir ar dudalen 11, yn datgan yn eglur y bydd barn staff y GIG yn elfen bwysig o asesu ein darpariaeth yn y dyfodol.

Rydym yn croesawu'r bwriadau ehangach a amlinellwyd yn ymateb Llywodraeth Cymru ar gynllunio'r gweithlu, cynllunio addysgol strategol, ac ail-ddilysu cyrsiau i safonau newydd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC). Fodd bynnag, nid yw'n dweud yn union sut y bydd pob un o'r camau hyn yn cael eu trosi i godi ymwybyddiaeth ac i sicrhau urddas a pharch ymhlith staff.

Er mwyn sicrhau'r Comisiynydd, a phobl hŷn yng Nghymru, yn y dyfodol byddwn yn gweithio â Llywodraeth Cymru a'r GIG i bennu matricesau penodol, ac i sefydlu dull o werthuso sut y mae'r prosesau hyn yn cyflawni canlyniadau.

ii. Tystiolaeth Ategol – Byrddau Iechyd Lleol a'r Ymddiriedolaeth

Wrth ystyried yr argymhellion mae'n amlwg na fu cymaint o gynnydd mewn rhai meysydd nag mewn eraill. Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r sgoriau CMG yn hunan adroddiadau'r Byrddau Iechyd a'r Ymddiriedolaeth drwy fecanwaith adrodd cyfredol Llywodraeth Cymru (gweler tudalen 10).

Dementia

Roedd Argymhelliad 2 yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd a'r Ymddiriedolaeth wella ymwybyddiaeth o ddementia, hyfforddiant a datblygu sgiliau staff, ac i sicrhau bod cymorth arbenigol ar gael i gynorthwyo staff sy'n gofalu am bobl â dementia.

Ar hyn o bryd mae tua 37,000¹ o bobl hŷn yng Nghymru yn byw â dementia, felly mae deall dementia, a bod yn sensitif i bobl sy'n ei brofi'n elfen hanfodol o ddarparu gofal trugarog ac urddasol.

Mae cynlluniau fel y Cynllun Glöyn Byw yn ei gwneud yn haws i staff adnabod cleifion â dementia, ac mae'n darparu hyfforddiant i ddelio â hwy a'u gofalwyr mewn ffordd sensitif ac effeithiol. Mae staff y Comisiwn wedi ymweld â wardiau sy'n defnyddio'r Cynllun Glöyn Byw a chawsant eu hysbrydoli gan yr hyn y gall ei gyflawni.

Dyma'r unig argymhelliad lle nad oes dim un o'r Byrddau wedi rhoi sgôr 'gwyrdd' iddynt eu hunain i ddangos bod y gwaith a addawyd wedi'i gwblhau, sy'n awgrymu bod hwn yn faes arbennig o heriol.

Rheoli Ymataliaeth

¹ http://www.ageuk.org.uk/pagefiles/7010/older_people_in_wales_key_facts_and_statistics.pdf

Roedd Argymhelliad 3 yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd a'r Ymddiriedolaeth roi blaenoriaeth i hybu ymataliaeth ac i wella sut y mae anymataliaeth yn cael ei reoli.

Ers cyhoeddi *Gofal gydag Urddas?* mae nifer o randdeiliaid wedi dweud na ddylai cyflawni ein hargymhellion fod yn fater arbennig o ddyrys, ac mae hyn yn arbennig o wir am reoli ymataliaeth.

I bobl hŷn mae rheoli ymataliaeth yn un sy'n ganolog i urddas a pharch. Nid yw'n dilyn na ddylai unigolyn sydd angen cymorth ychwanegol i fynd i'r toiled gael y cymorth hwn yn gyson, fel y canfuwyd yn ystod ein hymchwiliad gwreiddiol. Gall rheoli ymataliaeth yn aneffeithiol fod yn achos cywilydd a hyd yn oed poen corfforol i'r unigolyn dan sylw, a dylai staff gael eu grymuso i'w drin fel blaenoriaeth.

Yn ein cyfarfodydd ym mis Mawrth 2012, roedd hwn yn faes y cyfeiriwyd ato'n aml gan y byrddau fel un anodd, a dim ond dau Fwrdd ar hyn o bryd sy'n dweud bod y gwaith a gynlluniwyd ganddynt i wella gofal ymataliaeth wedi'i gwblhau.

Gwybodaeth Bersonol Cleifion

Roedd Argymhelliad 4 yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd a'r Ymddiriedolaeth sicrhau eu bod yn rhoi'r gorau i rannu gwybodaeth bersonol cleifion o fewn clyw pobl eraill lle y bo'n bosibl. Yn y bôn, mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud ag agwedd staff at breifatrwydd.

Roedd hwn yn faes arall lle dywed Byrddau bod yr amgylchedd ffisegol yn her iddynt. Mewn rhai ysbytai nid oes ystafelloedd ar gael yn agos at bob ward ar gyfer sgysiau preifat. Dywedodd rhai staff bod yn well gan rai pobl hŷn beidio â derbyn y cynnig i symud i gael sgwrs breifat, oherwydd bod symud o'u gwely'n anghyfforddus neu'n achosi poen iddynt.

Pan ddaethom ar draws cynlluniau llwyddiannus ar lefel ward roedd y rhain wedi'u hanelu at wneud i staff feddwl am breifatrwydd, yn hytrach na chreu gofod newydd ar gyfer ymgynghoriadau preifat lle nad oedd dim ar gael mewn gwirionedd. Roeddem wedi pwysleisio y dylai

preifatrwydd gael ei sicrhau 'lle y bo'n bosibl', ac y dylai Byrddau Iechyd dderbyn, mewn egwyddor, bod preifatrwydd cleifion yn flaenoriaeth.

Roedd canolbwyntio ar yr eiddo tiriog sydd ar gael mewn ysbyty yn gallu tynnu sylw oddi ar yr egwyddor hon, ac nid yw hynny'n annog arloesi posibl drwy awgrymu nad oes modd sicrhau preifatrwydd i gleifion.

Rhoddodd dau Fwrdd sgôr gwyrdd iddynt eu hunain am eu gwaith ar ddiogelu gwybodaeth bersonol.

Cynllunio'n Effeithio i Ryddhau Cleifion

Roedd Argymhelliad 5 yn rhoi disgwyliad ar Fyrddau Iechyd, yr Ymddiriedolaeth ac Awdurdodau Lleol i roi mwy o bwyslais ar ddatblygu dulliau effeithiol o gomisiynu gwasanaethau a gofal ar gyfer pobl hŷn i leihau oedi cyn rhyddhau cleifion.

Mae effaith trefniadau rhyddhau aneffeithiol yn mynd y tu hwnt i urddas a pharch, a gall achosi niwed gwirioneddol i gleifion os nad ydynt yn yr ysbyty yn ddigon hir, neu os ydynt yn cael eu rhyddhau i gartref nad yw bellach yn addas ar gyfer eu hanghenion.

Roedd angen i Fyrddau Iechyd weithio ag awdurdodau lleol yn eu hardal i gynhyrchu cynlluniau gweithredu i hybu gwelliannau. Mae'n bosibl y gellir beio peth o'r oedi a adroddwyd ar hyn. Mae'r Comisiwn yn derbyn bod gwella cydweithio rhwng gwasanaethau cymdeithasol a'r GIG yn nod tymor hir, a'i fod yn un y mae nifer o sefydliadau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, yn troi eu golygon ato.

Mae argymhelliad 5 ar drefniadau rhyddhau effeithiol yn dangos mai dim ond un bwrdd sydd wedi cwblhau ei waith yn y maes hwn.

Amgylchedd y Ward

Roedd Argymhelliad 8 yn amlinellu sut y gall newidiadau syml ac ymatebol i amgylchedd y ward wneud gwahaniaeth mawr i ddiwallu anghenion pobl sy'n eu defnyddio neu sy'n gweithio ynddynt.

Mae'n amlwg bod y cynnydd yn y maes hwn wedi bod yn araf. Wrth gwrdd â Byrddau Iechyd roedd llawer ohonynt wedi crybwyll yr heriau gwirioneddol iawn sy'n cael eu hachosi gan y seilwaith ffisegol yng Nghymru. Mae adeiladau rhai ysbytai wedi'u codi ers degawdau, mae rhai'n hŷn na'r GIG ei hun hyd yn oed, ac mae hyn yn cyfyngu ar ba welliannau sy'n bosibl i amgylchedd y ward.

Nid yw'r Comisiwn o'r farn bod y seilwaith ynddo'i hun yn rhwystr penodol rhag gwneud gwelliannau sylfaenol i wardiau er mwyn ei gwneud yn haws i symud o gwmpas, i'w gwneud yn fwy dymunol i dreulio amser ynddynt, a chyda cyfleusterau o safon da. Yr hyn sy'n allweddol i gyflawni'r argymhelliad hwn yw ymgysylltu â chleifion a'u teuluoedd ar lefel ward, lle gallant weld pa welliannau sy'n realistig, ond bod modd gwneud newidiadau syml a buddiol o hyd o fewn y gofod sydd ar gael.

Dyweddodd un Bwrdd ei fod wedi rhoi sgôr gwyrdd iddo'i hun ar gyfer Argymhelliad 8 sy'n ymdrin â gwelliannau i amgylchedd y ward.

Cyfathrebu Effeithiol

Roedd Argymhelliad 9 yn gosod disgwyliad ar Fyrddau Iechyd a'r Ymddiriedolaeth i roi eglurhad clir i bobl hŷn, eu teuluoedd a'u gofalwyr o'u hawl i gael gofal urddasol o ansawdd da. Mae cysylltiadau agos rhwng hyn ag Argymhelliad 2, sy'n ymwneud â dementia.

Mae cyfathrebu eglur ac effeithiol yn hanfodol i helpu pobl hŷn i gael dewis a rheolaeth mewn sefydliad gofal iechyd. Gall diffyg gwybodaeth a chyingor ar gyflyrau iechyd, triniaeth feddygol, neu ansawdd y gofal y dylai unigolyn hŷn ei ddisgwyl achosi ofn ac ansicrwydd a gwneud eu harhosiad yn yr ysbyty'n anos.

Rhoddodd dau Fwrdd sgôr gwyrdd iddynt eu hunain am eu gwaith, ond nid yw'n amlwg o'r adroddiad a roddwyd gan Lywodraeth Cymru beth yw'r rhwystrau sy'n atal y Byrddau Iechyd rhag rhoi eu cynlluniau gweithredu ar waith yn achos yr argymhelliad hwn.

Defnyddio Profiad Cleifion

Roedd Argymhelliad 10 yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd a'r Ymddiriedolaeth ddangos sut maent wedi rhoi sylw i, ac wedi gweithredu ar, ganlyniadau profiad eu cleifion.

Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr argymhelliad hwn yn hanfodol i gyflawni'r lleill i gyd yn effeithiol, gan ein bod wedi rhoi blaenoriaeth uchel i hyn yn ein cynlluniau ar gyfer monitro a chofnodi yn y dyfodol. Heb wneud y gorau o brofiadau'r bobl sy'n defnyddio'r wardiau, nid oes modd profi a yw dulliau newydd neu bresennol yn ateb y galw, pa mor glodwiw bynnag yw eu bwriadau.

Dyweddodd dau Fwrdd Iechyd eu bod wedi rhoi sgôr gwyrdd sy'n dangos bod y gwaith a gynlluniwyd ganddynt wedi'i gwblhau.

Sgiliau Staff

Roedd Argymhelliad 12 yn ei gwneud yn ofynnol bod pob Bwrdd Iechyd a'r Ymddiriedolaeth yn sicrhau bod gan yr holl staff sy'n gofalu am bobl hŷn lefelu priodol o wybodaeth a sgiliau drwy addysg a hyfforddiant parhaus.

Yn ystod ein galwad am dystiolaeth, aeth llawer o bobl hŷn o bob cwr o Gymru i'r drafferth i gysylltu â'r Comisiwn i ddweud wrthym ba mor hapus yr oeddent â'r gofal yr oeddent hwy neu rai oedd yn annwyl iddynt wedi'i gael. Mae'n amlwg bod gan bobl deimladau cynnes dros ben tuag at staff nyrsio rheng flaen pan maent yn gwneud eu gwaith yn dda ar adeg mor bwysig ym mywyd unigolyn hŷn.

Fodd bynnag, dywedodd y staff eu hunain wrthym eu bod yn aml yn teimlo bod angen mwy o hyfforddiant a datblygiad arnynt i ddarparu gofal o'r safon uchaf. Er enghraifft, y sgiliau ychwanegol sydd eu hangen i ofalu am rywun â dementia, neu ymddygiad heriol.

Buddsoddi mewn staff, a'u grymuso i ddarparu gofal urddasol i gleifion yw'r ffordd fwyaf dibynadwy o wella gofal yn gyffredinol. Mae ein cynigion ar gyfer monitro ac adrodd parhaus, fel yr amlinellwyd ar

dudalen 11, yn ei gwneud yn amlwg y bydd barn staff y GIG am eu sgiliau a datblygiad gwybodaeth yn allweddol i asesu'r ddarpariaeth yn y dyfodol.

Mae dau Fwrdd Iechyd wedi cael sgôr gwyrdd sy'n dangos eu bod wedi cwblhau'r gwaith a gynlluniwyd ganddynt.

Nodiadau cyfarfodydd cynnydd â Byrddau Iechyd a'r Ymddiriedolaeth ym mis Mawrth 2012

Ym mis Mawrth 2011, cyfarfu'r Comisiwn â'r cyrff sy'n rhan o Adolygiad *Gofal gydag Urddas?* i drafod y cynnydd a wnaethpwyd a'u hymrwymiaadau i gyflawni eu cynlluniau gweithredu.

Mae'r adran hon yn crynhoi'r pwyntiau allweddol a wnaethpwyd gan y Byrddau a'r Ymddiriedolaeth ym mhob un o'r cyfarfodydd hyn, a bwriedir iddi roi cipolwg ar y gweithgarwch ledled Cymru sy'n gysylltiedig â *Gofal gydag Urddas?* Rydym yn sylweddoli bod y gwaith wedi mynd yn ei flaen ymhellach ers hynny.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Mynegodd y Bwrdd ei awydd i'w ymateb fod yn eiddo i'r bobl hŷn eu hunain, y gymuned yn gyffredinol a'r staff ar bob lefel. Mae'n awyddus i'w waith fod yn seiliedig ar brofiad cleifion felly maent yn clywed hanesion y cleifion ac adroddiadau ar brofiadau cleifion yn rheolaidd. Mae hyn yn rhywbeth nad oedd yn digwydd yn yr un ffordd yn y gorffennol a rhoddwyd hwb iddo gan *Gofal gydag Urddas?*

Mae nodi gwella gofal i bobl hŷn, yn enwedig pobl hŷn eiddil, fel un o'r prif flaenoriaethau am y flwyddyn sy'n dod.

Mae grŵp llywio pobl hŷn wedi'i sefydlu i hybu newid mewn sawl maes, yn enwedig gofal dementia ac ymataliaeth. Mae adolygiad rheolaidd y Bwrdd ei hun ar amddiffyn oedolion hefyd wedi tynnu sylw at yr angen i wella gofal dementia ac ymataliaeth, ond cafodd cyflymder y cynnydd ei sbarduno gan adroddiad *Gofal gydag Urddas?*

Mae hyfforddiant Urddas mewn Gofal wedi bod yn ofyniad i bob aelod o staff ac mae ymdrech yn cael ei wneud i hyrwyddo delweddau positif o henaint.

Mae chwiorydd ward yn PABM yn awr yn bresennol yn yr holl gyfarfodydd sy'n ymdrin â chwynion ar eu ward, ac mae hynny'n cyfrannu at eu dysgu. Mae chwiorydd wardiau'n cael eu gwneud yn fwy atebol am yr hyn sy'n digwydd o fewn maes eu cyfrifoldeb, gan fonitro meysydd sydd wedi gwella, a meysydd lle mae angen gwella o hyd.

Mae PABM yn dal i wynebu heriau o ran sicrhau preifatrwydd mewn ysbyty aciwt. Mae 'pegiau urddas' yn cael eu defnyddio ond nid ym mhob ysbyty.

Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan

Mae'r Bwrdd o'r farn bod *Gofal gydag Urddas?* yn gyfle gwerthfawr i roi sylw i faterion a oedd eisoes wedi'u nodi fel rhai oedd angen eu datrys. Mae wedi bod yn hwb i ddwyn pob agwedd ar eu gwaith ynghyd ac i symud ymlaen mewn meysydd lle'r oedd angen gweithredu. Maent wedi sefydlu cyfarfodydd grŵp gorchwyl a gorffen sy'n gysylltiedig â'r agenda urddas ac sy'n cynnwys partneriaid allanol.

Fel sefydliad newydd, mae'r uwch reolwyr wedi ceisio rhoi 'gwedd newydd' i'r Bwrdd Iechyd lle mae staff yn gwybod yn union beth mae gofal yn ei olygu, ac maent yn canolbwyntio ar yr hanfodion unwaith eto. Mae *Gofal gydag Urddas?* a chynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd wedi bod yn ffactorau pwysig yn eu gwaith.

Yn awr gofynnir i ymgeiswyr mewn cyfweiliadau beth mae urddas a pharch yn ei olygu iddynt, ac maent yn bwriadu rhoi cyfeiriad penodol at urddas yn y fanyleb person ar gyfer swyddi. Mae gan y Bwrdd i gyd a'r tîm gweithredol amcan personol sy'n gysylltiedig ag Urddas a Pharch.

Bydd yn sefydlu Bwrdd Dementia i edrych ar bob ardal o'r Bwrdd Iechyd.

Mae wedi cynnal archwiliad urddas a phreifatrwydd ar ymataliaeth lle canfuwyd enghreifftiau o arfer da. Roedd yn rhoi ystyriaeth i brofiadau nyrsys a chleifion. Nodwyd llawer o faterion yn ymwneud â'r amgylchedd, yn enwedig digon o ofod i gadeiriau mewn cuddyglau.

Ailedrychwyd ar yr ymrwymiad yn y cynllun gweithredu i sefydlu clinig ymataliaeth i bobl hŷn yng Nghasnewydd. Mae dull newydd yn cael ei gynig i integreiddio â'r arweinyddiaeth Eiddilwch ar draws ardal y Bwrdd ac i ddarparu gwybodaeth am atgyfeirio i'r un deg saith clinig sy'n bodoli eisoes.

Bu Nicky Hayes, aelod o banel *Gofal gydag Urddas?* yn ymweld â hwy i'w helpu i feddwl sut y gellid gwella preifatrwydd cleifion.

Mae ganddynt yn awr strategaeth profiad cleifion ar waith ac mae llawer o waith yn cael ei wneud. Mae'r prosiect gwirfoddolwyr yn Ysbyty Aneurin Bevan yn cynnwys cleifion i benderfynu ar y gweithgareddau yr hoffent eu cael (ee trin gwallt ac ewinedd, gwau ac ati) a chanfod gweithgareddau cymunedol a chyfleoedd cymdeithasol a all barhau ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Maent yn gobeithio gwneud cysylltiadau â'r coleg lleol fel y bydd myfyrwyr yn cael darparu rhywfaint o'r triniaethau gwallt a harddwch yr hoffai'r cleifion eu cael.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Mae'r Bwrdd o'r farn bod *Gofal gydag Urddas?* yn waith dylanwadol sy'n mynd i newid agweddau.

Mae wedi creu Canolfan Dysgu Rheolaeth Nyrsio a Bydwreigiaeth fel adnodd pwysig i roi sylw i arweinyddiaeth a gwybodaeth a sgiliau ar y ward. Mae Cyfadran Gwella Ansawdd hefyd wedi'i sefydlu.

Mae heriau'n parhau wrth geisio sicrhau niferoedd staffio cywir a'r nod yw pennu meincnod sylfaenol ar gyfer nyrsio.

Mae metronau wedi eu hailgyflwyno ar draws y Bwrdd Iechyd a bydd y rôl hon yn cael ei gwerthuso yn y man.,

Mae dementia bellach yn rhan o'r hyfforddiant gorfodol ac mae'r Bwrdd wedi penodi arbenigwyr ar Ddementia. Mae'n gweithio â phrifysgolion lleol i ymgorffori codi ymwybyddiaeth o ddementia a cholli defnydd o synhwyrau yn y cwricwlwm ar gyfer hyfforddi gweithwyr proffesiynol. Mae hefyd yn gweithio â Chymdeithas Alzheimer i ganolbwyntio ar

ehangu cymorth cymunedol ac osgoi'r angen i bobl orfod mynd i'r ysbyty, ac edrych ar ddefnyddio arian elusennol i wella amgylchedd y ward i gleifion â dementia.

Mae tîm Ymataliaeth y Bwrdd yn cysylltu â'u tîm Hanfodion Gofal i edrych ar ymataliaeth. Mae cynllun gweithredu wedi'i gwblhau ac mae wedi cael ei drafod mewn cyfarfodydd â defnyddwyr gwasanaeth.

Mae'r Bwrdd wedi cynhyrchu ffilm fer ar Rowndiau Bwriadol – ymweliadau rheolaidd wedi'u strwythuro â chleifion ar ward – i ymgorffori preifatrwydd ac urddas, ac mae wedi cael croeso brwd. Mae angen rhagor o waith i ymgysylltu ag ymgynghorwyr a therapyddion.

Mae'r Bwrdd yn defnyddio technegau arolygu ychwanegol (arolwg Picker) i asesu profiad cleifion. Bydd hyn yn helpu i ganfod tueddiadau yn ôl oedran.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Yn dilyn *Gofal gydag Urddas?* mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu fframwaith sy'n helpu i ailedrych ar y gwerthoedd sy'n bwysig ac ar beth sy'n bwysig i staff. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi edrych ymhellach ac yn ddyfnach ar urddas a pharch o safbwynt addysg, a hynny o ganlyniad i *Gofal gydag Urddas?*

Mae wedi sicrhau bod ei gynllun gweithredu ar ddementia yn rhoi pwyslais ar ganolfannau aciwt, ac nid ar ganolfannau iechyd meddwl yn unig.

Er mwyn gwella gofal ymataliaeth bydd y Bwrdd yn pennu safon ar gyfer ateb clychau galw. Mae'n casglu storïau gan gleifion i gynhyrchu DVD a fydd ar gael yn gyffredinol ac a fydd yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r profiad o fod yn glaf. Mae defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cynrychioli ar bob un o'r grwpiau sy'n gweithredu ar faterion ymataliaeth.

Mae proses archwilio preifatrwydd wedi cael ei datblygu a'i threialu. Bydd yr archwiliadau hyn yn rhan o gynllun pob adran a bydd ganddynt

yr un statws ag archwiliadau clinigol. Bydd yr archwiliadau'n cael eu cynnal gan feddygon iau, gan y bydd eu gwneud yn rhan o'r broses yn gynnar yn eu gyrfa yn help i'r neges dreiddio ac i feithrin diwylliant newydd. Mae ystafelloedd tawel yn cael eu huwchraddio ac maent yn dechrau cael eu defnyddio.

O ran rhyddhau o'r ysbyty, mae'n gweithio â phartneriaid yn yr awdurdodau lleol i sicrhau ymdeimlad o frys ar y cyd a phwyslais ar wneud y peth cywir o safbwynt y claf.

Mae'n datblygu crynodeb o'r ddarpariaeth sydd ar gael gan y trydydd sector er mwyn i staff i fod yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael. Mae wedi cynnal dau ddigwyddiad i randdeiliaid a oedd yn edrych ar y gwaith gwirfoddol sy'n cael ei wneud ac i lansio'i strategaeth a lifrai gwirfoddolwyr.

Er mwyn gwella amgylchedd y ward mae wedi cwblhau ymarferiad cwmpasu synhwyraidd sy'n archwilio systemau dolenni ac offer symudol, a bydd cynllun gweithredu'n dilyn. Mae'r diffyg cyllideb cyfalaf i adnewyddu'r cyfleusterau presennol yn her sylweddol o hyd.

Mae wedi cwblhau ymarferiad mapio o wybodaeth a sgiliau ac mae urddas a pharch wedi'i ychwanegu at yr hyfforddiant gorfodol. Mae'n cynnal trafodaethau â phrifysgolion lleol ynglŷn â sicrhau bod hyfforddiant cyn cofrestru ac israddedig yn rhoi sylw priodol i urddas a pharch.

Bwrdd Iechyd Cwm Taf

Mae Cwm Taf wedi defnyddio adroddiad *Gofal gydag Urddas?* mewn sesiynau cynefino staff, yn enwedig i nyrsys. Mae wedi buddsoddi yn ei dîm datblygu sefydliadol, gan gydnabod pwysigrwydd ymgorffori'r gwerthoedd cywir a sicrhau newid mewn diwylliant.

Mae enghreifftiau o arloesi'n cynnwys cynhyrchu arweinlyfrau poced i staff, a ddatblygwyd drwy ddefnyddio gwybodaeth staff. Mae'r cyntaf yn ymwneud â gofal dementia.

Mae gwerthoedd craidd nyrsio'n cael eu hatgyfnerthu'n gyson, ac mae eu hadduned urddas yn cael ei diweddarau a'i harchwilio'n rheolaidd. Mae'n cynnig cyfleoedd datblygu i nyrsys i'w galluogi i ragori os ydynt yn dangos potensial fel arweinwyr.

Mae pecyn 'Hyfforddi'r Hyfforddwyr' ar ofal dementia wedi'i gyflwyno. Mae wedi mabwysiadu symbol y blodyn cariad cywir (neu 'Forget-me-not') ar fyrddau statws cleifion ac mae wedi addasu'r daflen "Dyma Fi" gan y Gymdeithas Alzheimer.

Cwm Taf yw'r unig fwrdd iechyd yng Nghymru sy'n cynhyrchu prydau bwyd piwrî wedi'i ailffurfio, sy'n gwneud prydau bwyd yn brofiad mwy pleserus i gleifion. Mae hyn yn golygu bod prydau'r cleifion sydd angen bwyd ar ffurf piwrî yn cael eu gweini yn yr un ffordd â bwydydd eraill ac mae'r eitemau bwyd wedi'u mowldio i edrych yn debyg i'r bwydydd gwreiddiol. Mae'r Bwrdd yn credu bod cysylltiad cryf rhwng hyn ac urddas ac mae wedi cael adborth positif iawn.

Mae'n lleoli gweithiwr cyswllt rhyddhau â thîm yr awdurdod lleol i edrych ar ffyrdd gwell o weithio.

Mae Cwm Taf wedi gwrthsefyll y duedd tuag at ystafelloedd sengl i bawb. Mae'n credu bod hyn yn adlewyrchu dewis pobl hŷn, a barn eu teuluoedd. Mae gan ysbytai newydd y Bwrdd ddarpariaeth gymysg, sy'n cynnwys cilfachau en-suite, lolfeydd a mannau tawel.

Dyma un o ddau Fwrdd yn unig yng Nghymru sy'n cydweithio'n agos â'r adran tai yn eu hawdurdod lleol i edrych ar opsiynau cartrefu eraill a all helpu i ryddhau cleifion o'r ysbyty.

Mae'n cynnig sesiynau hyfforddi misol ar urddas i staff nyrsio. Mae'r staff sy'n cymryd rhan yn yr hyfforddiant yn cael rôl Hyrwyddwyr Urddas ac yn dychwelyd i'w wardiau i weithredu'n bositif. Dilynir hyn drwy archwilio'u cynnydd.

Bwrdd Iechyd Hywel Dda

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod gan bob aelod o staff rôl personol i'w chwarae i ddarparu gofal urddasol. Dylai fod yn fusnes craidd ac mae gan bob un o Gyfarwyddwyr y Bwrdd Iechyd amcan personol sy'n gysylltiedig â gofal urddasol.

Ystyrir bod storïau cleifion yn fwy grymus nag arolygon ac mae'r rhain yn awr yn cael eu cyflwyno ar ddechrau cyfarfodydd.

Mae cyfweiliadau recriwtio'n cynnwys cwestiwn ar urddas a pharch ac mae'n ymwybodol o'r angen i newid diwylliant, yn dilyn uno'r chwe bwrdd Iechyd blaenorol i ffurfio Bwrdd Iechyd Hywel Dda.

Mae cynllun EARWIG ("Everyone Always Remembers Where Information Goes") wedi ei gyflwyno gan rhai o'r nyrsys yn Ysbyty Llwynhelyg i hybu preifatrwydd o ran gwybodaeth personol. Gall hyn fod yn broblem fawr mewn ardaloedd gwledig â phoblogaeth fach lle mae cleifion yn aml yn adnabod ei gilydd.

O ran cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion bu llawer mwy o gydweithio â Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys mwy o swyddi ar y cyd, timau wedi'u cydleoeli a lleihau dyblygu, ond nid yw wedi bod yn gyson ym mhob ardal.

Gan gydnabod bod angen urddas a pharch ar ofalwyr hefyd, mae gofalwyr di-dâl yn cael yr un mynediad at hyfforddiant a chymorth â staff llawn amser. Mae Hywel Dda wedi ymdrechu i fynd ymhellach na gofynion y Mesur Gofalwyr.

Mae trefniadau i ryddhau cleifion yn amrywio ar draws y rhanbarth daearyddol eang sydd o fewn ffiniau'r Bwrdd Iechyd. Mae heriau'n parhau o ran newid y gwasanaethau presennol a chyflwyno rhywbeth gwell yn eu lle.

Mae'r Bwrdd wedi adolygu amgylchedd y ward ac, o ran cynllunio cyfalaf ac amgylchedd, mae urddas yn cael ei ystyried ochr yn ochr â materion eraill fel rheoli heintiau.

Mae wedi creu cynllun newydd i gynnwys cleifion o'r enw 'Siarad Iechyd' – sy'n gyfle i gleifion ddylanwadu ar bolisi drwy rannu eu profiadau.

Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys

Mae'r Bwrdd Iechyd yn ystyried diwallu anghenion gofal pobl hŷn fel busnes craidd, o gofio proffil y boblogaeth a'r niferoedd mawr o bobl hŷn sy'n mewnfudo i'r sir.

Cafodd *Gofal gydag Urddas?* ei ddefnyddio fel adroddiad a all fod yn sail i sgysiau ac i drafodaethau rhwng y proffesiynau a staff.

Mae ailstrwythuro sefydliadol wedi digwydd i gryfhau arweinyddiaeth glinigol ac ar y wardiau a'r berthynas rhwng uwch nyrsys a'r Bwrdd. Cafodd hyn effaith ar eu gallu i gyflawni rhai agweddau ar ymrwymadau eu cynllun gweithredu *Gofal gydag Urddas?*, ond maent yn canolbwyntio ar gamau tymor hir.

Mae rhai o'r cronfeydd elusennol sydd ar gael i'r Bwrdd yn cael eu defnyddio ar gyfer mân newidiadau fel clocciau sy'n hawdd i bobl â dementia eu deall a phaentio drysau i helpu cleifion â dementia a phroblemau gyda'u golwg i ganfod eu ffordd o gwmpas.

Nid oes Rhaglen Gofal Ymataliaeth wedi cael ei chyflwyno'n systematig ym mhob rhan o ardal y Bwrdd Iechyd. Gwnaethpwyd cynnydd yn hytrach o dan faner Trawsnewid Gofal, gan ganolbwyntio ar Ysbyty Llanidloes i ddechrau.

Ymddiriedolaeth GIG Felindre

Rhoddir clod i adroddiad *Gofal gydag Urddas?* am adnewyddu pwyslais Felindre ar yr hyn a oedd eisoes yn faes allweddol o waith yr Ymddiriedolaeth. Mae wedi ei hannog i ailedrych ar beth o'i gwaith ac i ymdrechu i'w wella.

Y rhwystr mwyaf y mae Felindre'n ei wynebu wrth geisio cyflawni'r agenda hon yw amgylchedd ffisegol yr ysbyty, a diffyg cyllid cyfalaf i wneud gwelliannau.

Tybiwyd fod yr 'egni, y brwdfrydedd, a'r ethos' ymhlith staff fel y dylai fod.

Un newid pwysig sydd wedi dod yn sgil *Gofal gydag Urddas?* yw'r anogaeth i staff nyrsio gofnodi eu hymdrechion, ac i gasglu tystiolaeth o safonau da. Maent yn awr yn cadw ffolder 'newyddion da' ac mae un nyrs wedi sefydlu fforwm 'Ysbrydoli i Ofalu'. Mae hwn yn rhannu syniadau da, ac mae'n darparu hyfforddiant i staff eraill, a gwelwyd newid gwirioneddol mewn agweddau o ganlyniad.

Mae swyddog arweiniol ar ddementia wedi'i benodi. Mae pobl yn awr yn cael eu hasesu â'u teulu wrth gael eu derbyn. Caniateir iddynt ddod ag eitemau o'u cartref gyda hwy i'w gwneud yn fwy cartrefol.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cael anhawster sicrhau cyllid ar gyfer cymorth gofal cymdeithasol i unigolion yn ystod triniaeth ac mae oedi cyn rhyddhau cleifion o ganlyniad i'w cylch gwaith Cymru gyfan a'r berthynas sydd ganddi oherwydd hynny â nifer fawr o wahanol adrannau gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n cydnabod bod rhyngweithio â gwasanaethau cymdeithasol yn faes sydd angen ei ddatblygu ymhellach.

Mae niferoedd mawr wedi manteisio ar fagiau gwybodaeth i gleifion, sy'n cynnwys taflenni am fudd-daliadau ac ymdopi â chanser. Mae Rheolwr Gwybodaeth yr Ymddiriedolaeth yn edrych a oes angen pecyn gwybodaeth penodedig ar gyfer pobl hŷn.

Mae wedi gweithredu sgriniau urddas 'Arhoswch, Edrychwch, Gwrandewch' – i annog pobl i drin llenni yn yr un ffordd â drysau. Mae rhoi gwybodaeth i gleifion mewn mannau clinigol yn her o hyd oherwydd yr amgylchedd ffisegol. Mae cleifion yn aml yn gwrthod y cynnig i symud i rywle mwy preifat, ond mae mannau lle gellid eu symud.

Roedd lansiad y cod urddas yn llwyddiant. Mae'n gynllun amlddisgyblaeth gyda thri ar hugain o aelodau'r gweithgor urddas. Mae staff wedi mynegi nifer o bryderon drwy'r grŵp hwn, gan gynnwys teithiau ambiwlans a gynau cleifion.